

Annwyl rhieni a gwarcheidwaid,

Mae gwyliau'r haf yn galw a nifer o'n plith yn edrych ymlaen at gael toriad dros dro yn nhrefn arferol bywyd ysgol. Os daw cyfle i ymlacio, gobeithio y gwnewch chi fwynhau.

Wrth gyfeirio at drefn bywyd ysgol, mae'n briodol i ni dynnu sylw at ymgyrch bwysig fyddwn ni'n ei gweithredu ym Medi o'r enw "Pwysigrwydd Presenoldeb - pob disgybl, ar amser, pob dydd".

Roedd presenoldeb disgyblion ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin yn **93.5%** a phresenoldeb plant cynradd yn **94%** yn ystod y flwyddyn lawn ddiwethaf cyn covid. (2018-19)

Yn **2021-22**, disgynnodd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd i **83%** ac roedd presenoldeb disgyblion cynradd yn **89.5%**.

Cyfartaledd presenoldeb disgyblion TGAU Blwyddyn 11 yn 2021-22 oedd **73%**.

Ystyriwch hyn yng nghyd-destun y ffaith bod disgybl sydd â phresenoldeb o **80%** eisoes yn colli diwrnod o addysg bob wythnos.

Yn gymdeithasol, mae pob dydd coll yn gyfle coll i fod gyda ffrindiau, creu perthynas gydag athrawon, blasu profiadau newydd, datblygu fel unigolion cyflawn a chyrraedd potensial.

Os ydych chi'n teimlo bod sefyllfaoedd yn eich bywyd chi neu'ch plentyn sy'n rhwystro presenoldeb neu brydlondeb, mae cyngor a chefnogaeth ar gael gan eich ysgol a'r Cyngor Sir.

Mae'r [ddolen](#) / cod QR hwn hefyd yn fan dechrau da os am gael syniadau syml, ymarferol y gallai eich cynorthwyo.

Ein dymuniad yw cyd-weithio gyda chi i sicrhau'r cyfle gorau i'n disgyblion fod yn yr ysgol cymaint â phosib. Rydym ni am weld ein disgyblion yn dechrau adeiladu arferion a phatrymau y bydd yn ddefnyddiol iddynt drwy gydol eu hoes.

Mae data cynnar ar gyfer presenoldeb 2022-23 yn crybwyll bod gwelliannau'n digwydd ond bod llawer o waith eto i'w wneud.

Gyda diolch i chi am bob cefnogaeth a dymuniadau gorau ar gyfer gwyliau'r haf.

